

## GWIRFODDOLI GYDA NI A HELPU I WELLA IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

Eisiau bod yn rhan o sefydliad sydd  
â phwrpas ac angerdd?

### Pam gwirfoddoli gyda ni?

- datblygu eich sgiliau
- ychwanegiad gwyh i'ch CV
- gwneud gwahaniaeth cadarnhaol
- treuliau a dalwyd amdanynt
- gweithgareddau hyblyg





Llais yw'r **corff cenedlaethol, annibynnol** a sefydlwyd i roi llais i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Y cyfle

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr o'n holl gymunedau amrywiol i gasglu barn a phrofiad pobl o iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gwirfoddolwyr yn rhan hanfodol o'n gwasanaeth ac nid ydym ond yn diolch i chi am roi eich amser rhydd. Rydym yn darparu hyfforddiant, amrywiaeth o rolau diddorol a threfniadau hyblyg sy'n addas i chi.





## Y rolau

### Casglwr adborth ar-lein

Casglu profiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy fforymau ar-lein, safleoedd adolygu, cyfryngau cymdeithasol ac ymgynghoriadau ffurfiol – mae hyn yn gweithio'n dda os ydych am weithio gartref.

### Gwirfoddolwr Ymweld

Byddwch yn cwrdd â phobl neu eu teuluoedd/gofalwyr ar-lein neu wyneb yn wyneb mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ar ymweliadau a drefnwyd ymlaen llaw i ddeall beth maen nhw'n ei hoffi a beth allai fod yn well.

### Gwirfoddolwr ymgysylltu cymunedol

Byddwch yn ymuno â thîm lleol i gwrdd â phobl ar-lein ac wyneb yn wyneb yn y gymuned i gasglu eu barn a'u profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol.

### Gwirfoddolwr cynrychiolaeth

Byddwch yn mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau ar ran Llais, yn cyflwyno ein safbwynt pan fo angen, yn gwneud nodiadau o'r cyfarfod ac yn bwydo gwybodaeth berthnasol yn ôl.





## **Bod yn rhan o rywbeth pwysig**

Rydyn ni yma i sicrhau bod barn a phrofiadau pobl yn helpu i wneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well i bawb.

I gael gwybod mwy am Llais a sut y gallwch chi gymryd rhan mewn gwella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gyda ni, cysylltwch â'ch tîm Llais lleol neu ewch i **[www.llaiscymru.org](http://www.llaiscymru.org)**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch hefyd ei lawrlwytho o'n gwefan neu gysylltu â ni i ofyn am gopi.



# EICH TÎM LLAIS LLEOL

## Caerdydd a Bro Morgannwg

Yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg.

**Ffôn:** 029 2375 0112

**E-bost:** cardiffandvaleenquiries@llaiscymru.org

## Cwm Taf Morgannwg

Yn cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

**Ffôn:** 01443 405830

**E-bost:** cwmtafmorgannwg enquiries@llaiscymru.org

## Gwent

Yn cwmpasu Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.

**Ffôn:** 01633 838516

**E-bost:** gwentenquiries@llaiscymru.org

## Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe

Yn cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

**Ffôn:** 01639 683490

**E-bost:** nptandswansea enquiries@llaiscymru.org

## Gogledd Cymru

Yn cwmpasu Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.

**Ffôn:** 01978 356178 / 01248 679284

**E-bost:** northwalesenquiries@llaiscymru.org

## Powys

Yn cwmpasu Sir Drefaldwyn, Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed.

**Ffôn:** 01874 624206 / 01686 627632

**E-bost:** powysenquiries@llaiscymru.org

## Gorllewin Cymru

Yn cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

**Ffôn:** 01646 697610

**E-bost:** westwalesenquiries@llaiscymru.org

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health  
a gofal cymdeithasol | and social care